# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Tachwedd 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

## Rhag-gyfarfod preifat

(08.45 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Sesiwn dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar Addysg Uwch a lles staff a myfyrwyr gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg uwch

(09.15 - 10.15) (Tudalennau 1 - 17)

Joe Atkinson, Ymgynghorydd y Wasg a Materion Cyhoeddus - Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

Becky Ricketts, Llywydd - Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

Jamie Insole, Swyddog Polisi Cymru - Undeb Prifysgolion a Cholegau

Jim Dickinson, Golygydd Cysylltiol - WonkHE

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(10.15)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â’r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) oddi wrth y Mudiad Meithrin yn dilyn y cyfarfod ar 17 Medi**

(Tudalennau 18 - 20)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 1

**3.2 Llythyrau gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidogion Llywodraeth Cymru - cais am wybodaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**

(Tudalennau 21 - 36)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 2

**3.3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru - cais am wybodaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**

(Tudalennau 37 - 44)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 3

**3.4 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at holl Brif Weithredwyr byrddau iechyd GIG Cymru ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

(Tudalennau 45 - 46)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 4

**3.5 Gwybodaeth ychwanegol gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 5 Tachwedd ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

(Tudalennau 47 - 51)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 5 (Saesneg yn unig)

**3.6 Llythyr at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg, ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg**

(Tudalennau 52 - 55)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 6

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.15)

## 5 Effaith Covid-19 ar Addysg Uwch a lles staff a myfyrwyr gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg uwch - trafod y dystiolaeth

(10.15 - 10.25)

## Egwyl

(10.25 - 10.40)

## 6 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - trafod yr adroddiad drafft

(10.40 - 12.00) (Tudalennau 56 - 161)

**Dogfennau atodol:**

Papur esboniadol

Pennod A - Cefndir a chyd-destun polisi (Saesneg yn unig)

Chapter B - General principles (Saesneg yn unig)

Chapter C - Details on the face of the Bill (Saesneg yn unig)

Pennod D - Ieithoedd: Cymraeg a Saesneg (Saesneg yn unig)

Pennod E - Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb ("RSE") (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Ganolfan Integredig
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD


mudiad meithrin

9 Tachwedd 2020

Annwyl Aelod o'r Senedd,

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am Fil y Cwricwlwm yn ddiweddar.

Fel y gwyddoch, rydym wedi mynegi pryder gwirioneddol am eiriad problematig ym Mil y Cwricwlwm sy'n awgrymu bod lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gallu cyflwyno'r Saesneg i 'raddau' gwahanol, cymal sy'n rhwym o gael ei ddehongli mewn ffyrdd allasai niweidio gofal plant ac addysg gynnar sy'n arddel y dull trochi trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roeddem yn falch o weld ymatebion gan arbenigwyr addysg ac iaith i'r ymgynghoriad ar y Bil yn cytuno â ni bod angen ailedrych ar y cymal hwn i osgoi canlyniadau anfwriadol ac unrhyw gamargraff a allai danseilio dyheadau Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cytunwn â Chomisiynydd y Gymraeg sy'n datgan fod 'cynnwys y Saesneg fel elfen fandadol yn tanseilio addysg cyfrwng Cymraeg'. I ni, fel arbenigwyr y blynyddoedd cynnar, byddai agor drws i gyflwyno'r Saesneg mewn lleoliadau meithrin sy'n trochi yn golygu defnyddio'r iaith fel cyfrwng addysg – symudiad a fyddai'n tanseilio y dull trochi sy'n strategaeth greiddiol i'r nod o greu siaradwyr Cymraeg.

Datganodd y Llywodraeth fod y cwricwlwm a'r Bil yn seiliedig ar adroddiadau arbenigwyr (Yr Athro Donaldson, Yr Athro Sioned Davies, Dr Elin Jones, er enghraifft). Fodd bynnag ni gafwyd tystiolaeth gan yr arbenigwyr a gomisiynwyd gan y

9 November 2020

Dear Member of the Senedd,

Thank you for the recent opportunity to submit evidence regarding the Curriculum and Assessment Bill to the Children, Young People and Education Committee.
As you know, we have expressed grave concern about the problematic wording of the Curriculum Bill, which suggests that early years settings could introduce English to different 'degrees'; a clause which is bound to be interpreted in ways which might prove damaging to childcare and early years settings promoting the Welsh-language immersion method.

We were pleased to see that the responses of education and language experts to the Bill's consultation were in agreement with our own in stating that this clause needs to be revisited in order to avoid unintentional consequences, or any misconceptions, which could undermine the Welsh Government's aspiration to create a million Welsh speakers by 2050.

We agree with the Welsh Language Commissioner's statement that 'including English as a mandatory element undermines Welsh-medium education'. In our view as early years specialists, if English is introduced within nursery settings using the immersion methodology then English will be used as a medium of education - a move which would undermine the immersion method strategy central to the acquisition of language.

The Government stated that the curriculum and the Bill were based on specialists' reports (for example, Prof. Donaldson, Prof. Sioned Davies, Dr Elin Jones). However, no evidence presented by those specialists commissioned by the Government, nor




MARC ELUSEN DDIBYNADWY TRUSTED CHARITY MARK LEFEL LEVEL 2
GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU WELSH CHARITY AWARDS Rhestr Fer Gwobrau Elusennau Cymru 2019
Enillydd 2017 Winner Gwobrau Trydydd Sector Cymru Third Sector Awards Cymru
academi datblygu•hyfforddi•meithrin
CYMRAEG



Prif Weithredwr / Chief Executive: Dr Gwenllian Lansdown Davies. Elusen Gofrestredig/Registered Charity 1022320. Cwmni Cyfyngedig dan Warant/Company Limited by Guarantee 2164058. Cofrestrwyd yng Nghymru/Registered in Wales

Llywodraeth na chan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Cwricwlwm llynedd yn argymell gwneud y Saesneg yn elfen fandadol yn y cwricwlwm.

Pryderwn, fel Undeb Athrawon Cenedlaethol Cymru, fod y Bil yn rhoi grym di-gynsail i benaethiaid a darparwyr addysg feithrin i wyrdroi iaith darpariaeth a all arwain at anghysonderau di-ri. Ymhellach, gallai'r newid danseilio grym strategol Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu) wedi buddsoddiadau ac ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r system honno.

Credwn fod consensws glir gan ymarferwyr ac arbenigwyr yn ystod yr ymgynghoriad ar Fil y Cwricwlwm y dylid datgymhwyso'r Saesneg fel elfen fandadol ar flaen y Bil. Ystyriwn y pwynt yma'n flaenoriaeth er mwyn osgoi'r dryswch niweidiol pe bai'r Bil yn parhau yn ei ffurf bresennol. Ni fyddai dileu'r Saesneg yn effeithio ar addysg cyfrwng Saesneg, ond yn cydnabod bod angen cynllunio bwriadol ar bob lefel i brif-ffrydio a chynyddu addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n dderbyniol bod rhaid i ddarpariaeth drochi hyd at 7 oed ofyn am gamau pellach i amrywio a bod yn eithriad o'r norm; yn hytrach, dylai'r Bil fod yn gerbyd i'r weledigaeth o 'gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn...system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb...' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, t.7).

Mae'n gwbl glir bod angen darparu cefnogaeth arbennig ar gyfer addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ei chynnwys fel elfen fandadol. Yn wir, argymhellodd Yr Athro Donaldson y dylai'r Gymraeg barhau fel elfen fandadol yn ei adroddiad sy'n sail i'r newidiadau i'r cwricwlwm. Ein nod fel Mudiad Meithrin yw sicrhau dilyniant addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar i ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau dinasyddion a gweithlu dwyieithog, felly byddai gosod y Gymraeg fel elfen fandadol yn gosod cynsail ar ddarparwyr addysg i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Er gwaethaf y newid agweddau amlwg yng Nghymru tuag at y Gymraeg, nid ar chwarae bach mae mynd ati i gynllunio, hwyluso a darparu arlwy cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar.

any evidence submitted to last year's consultation on the Curriculum recommended making English a mandatory element of the curriculum.

We, as Undeb Athrawon Cenedlaethol Cymru, are concerned that the Bill gives unprecedented power to headteachers and providers of nursery education to subvert a provision's language, which may lead to innumerable inconsistencies. Furthermore, the change may undermine the strategic power of the Welsh in Education Strategic Plans (WESPs) following investments and effort by the Welsh Government to strengthen the system.

During the consultation on the Curriculum Bill, practitioners and specialists clearly expressed that English should be disapplied as a mandatory element on the face of the Bill. We consider this a priority in order to avoid harmful confusion should the Bill continue in its present form. Removing English would not affect English-medium education but would be an acknowledgement that intentional planning is needed on all levels to mainstream and increase Welsh-medium education. It is unacceptable that those providing immersion up to the age of 7 will need to ask to be an exception or request to vary from the norm; rather, the Bill should be a vehicle for the vision of 'early introduction to Welsh… an education system that provides Welsh skills to all...' (Cymraeg 2050: A Million Speakers, p.7).

Welsh-medium education needs to be intentionally supported and so it makes sense for Welsh to be mandatory in the Bill. Indeed, Professor Donaldson recommended in the report that formed the basis for the changes to the curriculum that the Welsh language should continue to be a mandatory element. Mudiad Meithrin's aim is to promote progression from Welsh-medium early education to Welsh-medium schools, and to ensure a bilingual workforce and bilingual citizens; so making Welsh a mandatory element places a precedent on education providers to develop pupils' Welsh language skills across the curriculum.

Despite the obvious change in attitude in Wales towards the Welsh language, it is no small feat to plan, facilitate and deliver the provision of Welsh medium education in the early years.

Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth uchelgeisiol a chanmoladwy i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Erfyniwn arnoch fel aelod o'r Pwyllgor i argymell y newidiadau a amlinellwyd uchod rhag tanseilio'r gwaith rhagorol a gyflawnwyd eisoes.

Yr eiddoch yn gywir,

The Welsh Government has an ambitious and laudable strategy to create a million Welsh speakers by 2050.

We urge you as a member of the committee to recommend the changes outlined above, and thereby avoiding undermining the excellent work already carried out.

Yours sincerely,



Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr *Chief Executive*

Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cadeirydd *Chair*

Mudiad Meithrin



MARC ELUSEN DDIBYNADWY TRUSTED CHARITY MARK LEFEL LEVEL 2 NCVO
GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU WELSH CHARITY AWARDS Rhestr Fer Gwobrau Elusennau Cymru 2019
Enillydd 2017 Winner Gwobrau Trydydd Sector Cymru Third Sector Awards Cymru Cefnogir gan Class Networks Supported by Class Networks
academi datblygu • hyfforddi • meithrin
CYMRAEG

Prif Weithredwr / Chief Executive: Dr Gwenllian Lansdown Davies. Elusen Gofrestredig/Registered Charity 1022320. Cwmni Cyfyngedig dan Warant/Company Limited by Guarantee 2164058. Cofrestrwyd yng Nghymru/Registered in Wales

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Dyddiad | Date: 06 Tachwedd 2020

Pwnc | Subject: **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22**

Annwyl Weinidogion,


Yn unol â'n harfer, rydym yn ysgrifennu cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu.

Fel gyda'r blynyddoedd diwethaf, bydd ein dull yn seiliedig ar bedair egwyddor o ran craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg ar faterion sy'n berthnasol i'n cylch gwaith.

Nodwn fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 ar 21 Rhagfyr 2020, ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi y bydd ei Adolygiad o Wariant un flwyddyn yn digwydd ar 25 Tachwedd. Rydym ni yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl toriad y Nadolig - bydd y Clerc mewn cysylltiad i nodi'r manylion terfynol ar ôl i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar Amserlen y Senedd ar gyfer 2021. Byddem yn ddiolchgar o dderbyn y wybodaeth fanwl a amlinellir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn o leiaf ddwy wythnos waith cyn y dyddiad y bydd y cyfarfod hwnnw yn cael ei gynnal.

O ystyried y diddordeb cyffredin ar draws y pwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, rwy'n rhoi copi o'r llythyr i Dr Dai Lloyd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Copi at: Dr Dai Lloyd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD – Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y Gyllideb Ddrafft

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb i bob un o'r pwyntiau isod:

### 1. Tryloywder o ran y gwariant ar blant

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft yn dryloyw er mwyn galluogi gwaith craffu llawn a thrylwyr. Gofynnwn am esboniad naratif tryloyw (a darlunio rhifol) ar y canlynol:

- gostyngiadau/dileu neu gynyddu/ychwanegu o ran meysydd penodol o'r Gyllideb Ddrafft o'u cymharu â'r blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. lleihau grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu);
- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli; a
- lle yn union mae'r newid hwn yn cael ei wneud yn y Gyllideb Ddrafft, a ph'un a fydd arian yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill.
- gwybodaeth am yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddyraniadau.

Gofynnwn ymhellach i Weinidogion sicrhau bod adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n glir fel y gallwn nodi'r adnoddau a neilltuwyd, asesu i ba raddau y maent yn cael eu blaenoriaethu, a deall sut y byddant yn sicrhau gwerth am arian.

### 2. Esboniad ar ddyraniadau

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021-22 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, yn ôl Maes y Rhaglen Wariant (SPA), Cam Gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ac esboniad arnynt.
- Dyraniadau MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Dangosol ar gyfer 2022-23 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, os ydynt ar gael.
- Esboniad ar bob un o'r camau gweithredu o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2021-22 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 ac esboniad arnynt.

**3. Effaith gwariant ar ddatblygu hawliau plant o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

O ran Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 **ar draws pob portffolio**, mae'r Pwyllgor:

- yn ailadrodd ei gais i Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) gael ei gynnal ar gyfer y Gyllideb Ddrafft fel mater o drefn.
- yn gofyn am gopi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cyffredinol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i lywio'r dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22. Os na chynhaliwyd Asesiad o'r fath penodol, y rhesymau dros hyn a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig arall.

O ran **MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,** byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth am y canlynol:

- sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau'r gyllideb o fewn y MEG; a
- manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o ran hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**4. Dyraniadau o ran polisi a deddfwriaeth**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariad ar ddyraniadau o fewn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 yn y meysydd canlynol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, gan gynnwys:

- **Costau deddfwriaeth**: Gwariant wedi'i gynllunio ar weithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn y cyfnod cyn iddi ddod i rym.
- **Tlodi plant:** Dyraniadau i leihau tlodi ac i atal rhagor o blant rhag byw mewn cartrefi incwm isel yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd bresennol sy'n deillio o'r pandemig COVID-19.
- **Dechrau'n Deg:** Cyllid refeniw a chyllid cyfalaf; y sefyllfa ddiweddaraf ar yr arian allgymorth. Gwerth am arian a chynnydd wrth asesu canlyniadau dyraniadau a gwariant.
- **Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf**
- **Gofal Plant:** gan gynnwys y cynnig gofal plant ac unrhyw ddyraniadau ychwanegol sy'n codi o'r adolygiad o hawl rhieni, esboniad ar ddyraniadau ychwanegol yn yr ail Gyllideb Atodol fis Hydref 2020; Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE); datblygu'r gweithlu; cyllid gofal plant arall.
- **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**
- **Cefnogaeth rhianta**, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau ar ddyraniadau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

- **Gwasanaethau diogelu**
- **Plant sy'n derbyn gofal:** gan gynnwys gwasanaethau maethu; gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal / gwasanaethau i atal plant rhag derbyn gofal; Gadael cymorth gofal. Gwerth am arian a chynnydd wrth olrhain canlyniadau mewn perthynas â gwariant.
- **Mabwysiadu:** gan gynnwys cymorth ar ôl mabwysiadu.
- **Gwasanaethau eiriolaeth**: gan gynnwys dyraniadau i gefnogi'r Dull Cenedlaethol
- **Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd**
- **Hawliau plant a phobl ifanc**, gan gynnwys dyraniadau i Cymru Ifanc, a gwerth am arian. Dyraniadau i weithredu argymhelliad adroddiad y Pwyllgor ar Hawliau Plant.
- **Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru**
- **Polisi a gwasanaethau chwarae:** gan gynnwys Chwarae Cymru a chynllun Gwaith Chwarae i atal llwgu yn ystod y gwyliau.
- **Gwasanaethau plant anabl**
- **Gordewdra ymhlith plant:** Gwybodaeth a ddosbarthwyd i weithredu'r cynllun 'Pwysau Iach: Cymru Iach'.
- **Gwasanaethau newyddenedigol**: Y dyraniadau i gyflawni'r adolygiad diweddaraf o Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan; blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ar gyfer y 12 mis nesaf; a sut bydd dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22 yn helpu i ysgogi gwelliant o ran perfformiad.
- **Iechyd Meddwl Amenedigol:** gwybodaeth am:
  - effaith COVID-19 ar y gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a'r dyraniadau i fynd i'r afael â hynny;
  - dyraniadau i gefnogi datblygiad pellach gwasanaethau ar draws pob ardal yng Nghymru, gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd, llwybrau gofal a darpariaeth i gleifion mewnol [Yn benodol: lefel y buddsoddiad i sefydlu uned mamau a babanod amenedigol arbenigol yng Nghymru; a dadansoddiad o'r cyllid fesul Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl amenedigol cymunedol, gan gynnwys esboniad ar yr amcanion ar gyfer y cyllid hwn, a pha drefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u sefydlu i fonitro gwariant ac i werthuso ei effaith].

**5. Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc**

Fel ffocws allweddol gwaith craffu'r Pwyllgor yn ystod y Pumed Senedd hon, byddem yn croesawu cael:

- Esboniad manwl mewn cysylltiad ag iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, gan gynnwys goblygiadau ariannol ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad Cadernid Meddwl gan y Pwyllgor a’r argymhellion dilynol ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2021-22.

- Gwybodaeth am ddyraniadau o ran iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn 2021-22 a lle y gellir eu canfod yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol h.y. Manylion y Meysydd Rhaglen Gwariant, y Camau Gweithredu a’r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) perthnasol.

Byddem yn croesawu cael rhagor o fanylion am:

- Cyllid ar gyfer cyflawni blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni, sef Law yn Llaw at Iechyd Meddwl diwygiedig.

- Manylion y cyllid i liniaru effeithiau COVID-19 ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, gan gynnwys sut y bydd hwn yn mynd i'r afael â'r effaith anghymesur ar rai grwpiau (gan gynnwys, er enghraifft, y rhai ag afiechyd meddwl eisoes, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy’n agored i niwed, a grwpiau incwm isel).

- Sut y bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn cefnogi dull 'system gyfan', traws-Lywodraethol a thraws-sector o ran iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar atal / ymyrraeth gynnar a meithrin gwytnwch.

- Cyllid i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd y gweithlu gofal iechyd plant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y gweithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

- Gwybodaeth am y gronfa gwella'r gwasanaeth iechyd meddwl, gwerth £7 miliwn, gan gynnwys (mewn perthynas â phlant a phobl ifanc) manylion am sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd yn 2020-21, a’r amcanion / blaenoriaethau o ran y cyllid hwn ar gyfer 2021- 22.

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 06 Tachwedd 2020

Pwnc | Subject: **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**

Annwyl Kirsty,

Yn unol â'n harfer, rydym yn ysgrifennu cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu.

Fel gyda'r blynyddoedd diwethaf, bydd ein dull yn seiliedig ar bedair egwyddor o ran craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. At hynny, byddwn yn ceisio tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar faterion sy'n berthnasol i'n cylch gwaith.

Nodwn fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2021-22 ar 21 Rhagfyr 2020, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd ei hadolygiad o wariant blwyddyn yn cael ei gynnal ar 25 Tachwedd. Ein bwriad yw cynnal sesiynau tystiolaeth cyn gynted â phosibl ar ôl toriad y Nadolig – bydd y Clerc yn cysylltu i gadarnhau'r manylion unwaith y bydd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar Amserlen y Senedd ar gyfer 2021. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth fanwl a amlinellir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn o leiaf dwy wythnos waith cyn y dyddiad pan fydd y cyfarfod hwnnw'n cael ei gynnal.

O ystyried y diddordeb sy'n cael ei rannu ar draws pwyllgorau yn rhai o'r meysydd a restrir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, rwyf wedi copïo Cadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cymraeg.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Wedi'u copïo: Russell George AS, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Helen Mary Jones AS, Cadeirydd, y Pwyllgor Diwylliant y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD – Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y Gyllideb Ddrafft

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb i bob un o'r pwyntiau a restrir:

**1. Meysydd Trawsbynciol**

*1.1 Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb*

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft mewn modd tryloyw i alluogi gwaith craffu llawn a thrylwyr. Yn hynny o beth, gofynnwn eto am esboniad naratif tryloyw (a darluniadau rhifol) o'r canlynol:

- gostyngiadau/dileu neu godiadau/ ychwanegiadau sy'n ymwneud â meysydd penodol o'r Gyllideb Ddrafft o'u cymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. grantiau'n cael eu gostwng neu'n peidio â bod yn gyfan gwbl/yn cael eu cynyddu neu eu cyflwyno);
- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli; a
- lle'n union mae'r newid hwn yn cael ei wneud yn y Gyllideb Ddrafft, a ph'un a fydd arian yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill.

*1.2 Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb*

- Gofynnwn am gael sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg, gan gynnwys dadansoddiad ac eglurhad o newidiadau arwyddocaol ers Ail Gyllideb Atodol 2020-21 (Hydref 2020).
- At hynny, gofynnwn am ddadansoddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2021-22 a'r Prif Grŵp Gwariant dangosol ar gyfer 2022-23 (os yw ar gael) yn ôl Ardal Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb, gyda dyraniadau Ail Gyllideb Atodol 2020-21, rhagolygon alldro 2020-21, ac alldro terfynol 2019-20 i gyd wedi'u cynnwys.
- Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, rydym yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Ail Gyllideb Atodol 2020-21 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rhain yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen.

*1.3 Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill*

- Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru – ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y rheini – gan gynnwys:
  - asesiad wedi'i ddiweddaru gan y Gweinidog ynghylch i ba raddau y mae'n credu bod y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cynnwys yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth am unrhyw drafodaethau parhaus gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch y lefel angenrheidiol o adnoddau;
  - manylion ynghylch a wnaed unrhyw flaenoriaethu neu wahaniaethu pellach o ran dyrannu adnoddau rhwng blaenoriaethau ac amcanion allweddol, ac a yw'r Gweinidog yn bwriadu targedu adnoddau at fynd i'r afael ag unrhyw themâu cyson sydd wedi dod i'r amlwg ar draws y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn ei gyfanrwydd;

– manylion yr asesiad a wnaed o'r gwerth am arian a fforddiadwyedd cyflawni pob un o'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol, a’r broses o fonitro eu heffeithiolrwydd o ran cost; a

– manylion unrhyw ymarferion cost-cyfle a gynhaliwyd mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

*1.4 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill*

Fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiadau blaenorol ynghylch craffu ar y gyllideb, ein hymchwiliad cyd-bwyllgor ar Asesiadau Effaith Integredig Strategol, a'n hadroddiad ym mis Awst 2020 ar hawliau plant, rydym o’r farn y dylid cynnal Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn ei chyfanrwydd. O ran y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn benodol, gofynnwn am y canlynol:

- gwybodaeth ynghylch pa ystyriaeth a roddwyd i hawliau plant, materion o ran cydraddoldeb (gan gynnwys cydraddoldeb rhwng y rhywiau), cynaliadwyedd a'r Gymraeg o ran dyraniadau'r gyllideb;
- Copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd gan yr Adran Addysg i lywio'r dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg drafft ar gyfer 2021-22. Os na chynhaliwyd Asesiadau o’r Effaith ar Hawliau Plant penodol, y rhesymau dros hynny a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig arall yn ogystal â sicrwydd bod yr asesiad hwn yn dangos y dilynwyd y ddyletswydd o “roi sylw dyledus” i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- gwybodaeth am yr ystyriaeth a roddwyd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wneud dyraniadau i linellau cyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg; a
- manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

*1.5 Costau deddfwriaeth*

- Manylion unrhyw ddyraniadau o fewn cyllideb 2021-22 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu diwygiadau’r cwricwlwm, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu.
- Manylion unrhyw ddyraniadau o fewn cyllideb 2021-22 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu diwygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Diweddariad ar unrhyw gostau parhaus i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg o weithredu deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad a’r Pumed Senedd hyd yn hyn, ac unrhyw oblygiadau ariannol i gyllideb 2021-22.
- Darpariaeth y gyllideb ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.
- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth perthnasol yn 2019-20.

*1.6 Effaith COVID-19*

- Gwybodaeth am effaith COVID-19 ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2020-21 a 2021-22 fel ei gilydd, gan gynnwys symudiadau i mewn ac allan o linellau cyllideb, y cyfraniad gros tuag at ymateb cyllidebol COVID-19 Llywodraeth Cymru – a derbyn ohono – yn ogystal ag effaith net hyn.
- Manylion y dyraniadau i raglen 'dal i fyny' COVID-19 yn 2020-21 a 2021-22, a'r defnydd o'r cyllid hwn.
- Manylion y dyraniadau yn 2020-21 a 2021-22 i sefydliadau addysg bellach i gefnogi darpariaeth ar gyfer dysgwyr y mae cwblhad eu cwrs wedi cael ei ohirio, a nifer y dysgwyr unigryw yr effeithiwyd arnynt.
- Gwybodaeth am unrhyw gyllid ar gyfer unrhyw weithgaredd addysg-ganolog sy'n gysylltiedig â COVID-19 y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg.
- Manylion unrhyw gyllid ychwanegol, neu ailgyfeirio adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu o bell ar gyfer disgyblion ysgol.

*1.7 Effaith Brexit*

- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE ar 31 Rhagfyr 2020.
- Gwybodaeth am faint o arian yr UE y mae Prif Grŵp Addysg 2020-21 wedi tynnu arno, a'r swm y rhagwelir y bydd yn dibynnu arno yn 2021-22 a dibenion gwario'r arian.

*1.8 Monitro'r gyllideb*

- Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau trwy gydol y flwyddyn, nodi diffygion a gwargedion posibl, a chymryd camau adferol neu ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion, yn enwedig yn sgil amgylchiadau eithriadol presennol COVID-19.
- Manylion am unrhyw newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg y disgwylir eisoes yn y Trydydd Cyllideb Atodol ar gyfer 2020-21.

**2. Meysydd penodol**

*2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion*

- Esboniad o'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 ac wedi dwyn adolygiad Sibieta o wariant ysgolion i ystyriaeth, wnaeth ddod i'r casgliad canlynol:

> "Erbyn hyn mae sylfaen dystiolaeth gref sy'n dangos manteision sylweddol yn sgil gwario mwy ar ysgolion. Ar draws ystod o gyd-destunau a gwledydd, gwelwyd bod cynnydd o 10% mewn gwariant yn gwella enillion addysgol ac enillion yn ddiweddarach mewn bywyd tua 7-10%."

- Esboniad o'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi dwyn i ystyriaeth yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 dau o argymhellion eraill Luke Sibieta:

  – Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion mwy difreintiedig.

– Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol i ysgolion a chanddynt ddosbarthiadau chwech.

- Bydd angen asesiad wedi'i ddiweddaru gan y Gweinidog ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2021-22, gan ystyried yr aflonyddwch yn sgil COVID-19 a'r diwygiadau sylweddol o ran y cwricwlwm a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanego y bydd yn rhaid i ysgolion baratoi ar eu cyfer, a'u rhoi ar waith.

*2.2 Cyllid ar gyfer gwella ysgolion*

- Dadansoddiad manwl ynghylch sut y dylid dyrannu elfen flynyddol ymrwymiad y Pumed Senedd i fuddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn o ran codi safonau ysgolion yn 2021-22.

- Dadansoddiad o'r modd y mae cyllid o dan ymrwymiad y Pumed Senedd i £100 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol o ran codi safonau ysgolion wedi'i ddyrannu a'i ddefnyddio dros gyfnod y Senedd hon.

- Diweddariad i Dabl D a ddarperir yn yr atodiad i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, yn rhestru dyraniadau i linellau gwariant yn y Gyllideb sy'n cefnogi codi safonau ysgolion o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn ystod y Senedd hon.

- Manylion dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn 2020-21 a blynyddoedd blaenorol, ynghyd ag unrhyw ddyraniadau dangosol sydd ar gael ar gyfer 2021-22, wedi'u dadansoddi yn ôl consortiwm ac 'amcan' (neu bennawd arall, p'un bynnag sy'n berthnasol).

- Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Addysg y Grant Gwella Ysgolion, a diweddariad ar sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n strategol, a gwerthusiad o'i effaith.

*2.3 Lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol*

- Gwybodaeth ar sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cael eu defnyddio i fodloni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol.

- Manylion y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ac asesiad wedi'i ddiweddaru o'i fforddiadwyedd a'i werth am arian.

- Gwybodaeth am gronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion a faint o deuluoedd dysgwyr sydd wedi elwa ers ei chyflwyno i ddisodli'r Grant Gwisg Ysgol.

- Unrhyw gyllid arall yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft bod yn brin o fwyd yn ystod y gwyliau a phrosiectau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol.

*2.4 Y Gweithlu Addysg*

- Manylion am ddyraniadau'r Gyllideb i ariannu:

  – diwygiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon; a

  – datblygu a gweithredu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg.

- Gwybodaeth am unrhyw arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.

- Manylion cyllid ar gyfer awdurdodau lleol tuag at dalu costau dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22 a'r mecanweithiau priodol a ddefnyddiwyd (p'un a ydynt yn grant uniongyrchol neu wedi'u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).

- Cadarnhad ynghylch pa gyfran o gostau dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer 2020/21 y mae Llywodraeth Cymru y ein hariannu'n uniongyrchol. (Cyfeiriodd datganiad y Gweinidog ar 14 Hydref 2020 at £5.5 miliwn ar gyfer elfen blwyddyn ariannol 2020-21, tra bod y Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 yn nodi cost flynyddol o £41 miliwn.)

*2.5 Diwygio'r cwricwlwm*

- Gwybodaeth am gyllid i gefnogi paratoadau ar gyfer Cwricwlwm Cymru, a'i roi ar waith – p'un a yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu neu weithgaredd ehangach.

- Os nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr uchod, manylion dysgu proffesiynol er mwyn i'r gweithlu addysg baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

*2.6 Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc*

- Gwybodaeth am y goblygiadau ariannol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2020-21 o ran y gwaith i ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol, gan gynnwys unrhyw arian i gefnogi'r canllawiau statudol.

- Manylion sut mae unrhyw arian o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.

- Manylion cyllid ar gyfer unrhyw fentrau ychwanegol, neu fentrau wedi'u teilwra, i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19.

*2.7 Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

- Manylion cyllid ar gyfer cefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2021-22 a sut mae hynny'n cael ei ddosbarthu.

- Cadarnhad a fydd cyllid wedi'i glustnodi yn parhau ar gyfer y ddarpariaeth hon neu a fydd Llywodraeth Cymru yn dychwelyd i'w chynnig blaenorol i brif ffrydio hynny i mewn i weithgareddau craidd awdurdodau lleol.

*2.8 Anghenion Dysgu Ychwanegol*

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth ddarparu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol bresennol, effaith y £9.4 miliwn ychwanegol yn 2020-21 ac a fydd cyllid ychwanegol pellach yn cael ei ddarparu yn 2021-22.

- Gwybodaeth am y ddarpariaeth ariannol ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a rhoi Deddf 2018 ar waith.

- Cadarnhad a yw Llywodraeth Cymru yn dal i fod o'r farn y bydd cyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn niwtral o ran cost, yn seiliedig ar ddisgwyliad y bydd arbedion yn sgil llai o anghydfodau a llai o wrthdaro yn gwrthbwyso costau darpariaeth well.

- Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant gyda Phrifysgol Caerdydd.

*2.9 Maint dosbarthiadau babanod*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol trwy gydol tymor y Senedd hon.

- Diweddariad ar nifer yr ysgolion, dosbarthiadau a disgyblion sydd wedi bod ar eu hennill hyd yn hyn.

*2.10 Grant ysgolion bach a gwledig*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y Grant Ysgolion Bach a Gwledig yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol trwy gydol tymor y Senedd hon.

- Diweddariad ar nifer yr ysgolion sydd wedi bod ar eu hennill hyd yn hyn, a disgrifiad byr o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar eu cyfer.

*2.11 Estyn*

- Manylion dyraniad cyllideb Estyn ar gyfer 2021-22 o Brif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda'r arolygiaeth ar ei lefelau cyllid gofynnol a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol,

*2.12 Cymwysterau*

- Manylion dyraniad y gyllideb i Gymwysterau Cymru yn 2021-22, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda'r rheolydd o ran ei lefelau cyllido gofynnol, a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Diweddariad ar unrhyw gyllid ychwanegol y mae Cymwysterau Cymru yn ei gael i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun Cwricwlwm newydd Cymru, a'i raglen o adolygiadau sector o gymwysterau galwedigaethol.

- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i Gymwysterau Cymru – neu unrhyw un o gyllidebau Llywodraeth Cymru  yn sgil yr aflonyddwch sy'n deillio o COVID-19, a threfniadau eithriadol ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2020 ac o bosibl yn 2021.

*2.13 Addysg cyfrwng Cymraeg*

- Manylion darpariaeth y gyllideb i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

- Amlinelliad o'r modd y bydd camau gweithredu cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, a'i tharged o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Crynodeb o'r modd y mae gweithgaredd a ariennir o dan y cam gweithredu hwn yn ymwneud â gweithgaredd a

ariennir o dan y Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (teitl cywir y Prif Grŵp Gwariant ar adeg ysgrifennu).

- Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddyrannwyd i gefnogi'r broses o wireddu'r continwwm sengl ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg, er enghraifft cynyddu gallu'r gweithlu addysg Cymraeg eu hiaith.

*2.14 Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen*

- Diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei gynnal er mwyn adolygu'r berthynas rhwng cyfraddau cyllido gofal plant ar gyfer y rheini sy'n dair a phedair oed (o dan y cynnig Gofal Plant) ac addysg blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant tair a phedair oed.

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o sefyllfa ariannol y sector meithrinfeydd a ariennir nas cyllidir mewn perthynas â'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a phortffolio'r Gweinidog Addysg, gan gynnwys yng nghyd-destun cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- Manylion y ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth ieuenctid, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wneir i adlewyrchu gwaith ac argymhellion Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Llywodraeth Cymru.

*2.15 Gwaith ieuenctid*

- Manylion ar ddarpariaeth y gyllideb i gefnogi darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i adlewyrchu gwaith ac argymhellion Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Llywodraeth Cymru.

*2.16 Dysgu ar gyfer Troseddwyr*

- Manylion y ddarpariaeth yn 2021-22 a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

*2.17 Addysg bellach, chweched dosbarth ac addysg i oedolion yn y gymuned*

- Manylion dyraniadau cyflawn 2020/21 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau holl gydrannau'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, lwfansau amddifadedd, bro denau ei phoblogaeth a'r Gymraeg, lwfans cynhaliaeth addysg ac addasiad Addysg Oedolion Cymru).

- Manylion y newidiadau i'r model cyllido addysg bellach (os oes rhai) o'r model a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn eich papur dyddiedig 8 Ionawr 2020, a'r rheswm dros unrhyw newidiadau.

- Manylion unrhyw arian wedi'i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu Chweched Dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.

- Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2021-22 at dibenion cyflawni cydraddoldeb cyflog a/neu er mwyn bodloni unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a Chweched Dosbarth, gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i fodloni'n llawn unrhyw ddyfarniad cyflog / cyfwerthedd cyflog y cytunwyd arno dros gyfnod y gyllideb hon.

- Manylion dyraniad cyflawn y Chweched Dosbarth ar gyfer 2021-22 wedi'i ddadansoddi fesul pob awdurdod lleol, a'r rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2020-21 a 2021-22 a ddefnyddir wrth gyfrifo dyraniadau grant y Chweched Dosbarth.

- Copi o’r canllaw Rhagdybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach mwyaf diweddar a ddosbarthwyd i sefydliadau addysg bellach.

- Esboniad cam wrth gam o'r model cyllido ar gyfer Addysg i Oedolion yn y Gymuned a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, a'r dyraniad ar gyfer Addysg i Oedolion yn y Gymuned wedi'i ddadansoddi fesul y cyrff perthnasol sy'n cael yr arian yn uniongyrchol.

*2.18 Addysg uwch, a chymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-16*

- Manylion dyraniad CCAUC, gan gynnwys manylion unrhyw arian wedi'i neilltuo, neu arian a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

- O ran diwygiadau Diamond: nodwch lefel ddisgwyliedig yr hyn a arbedwyd o ran cymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer 2021-22 o’i gymharu â 2020-21, a chyfran y swm hwn a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl yn y sector addysg uwch fel rhan o’r “Difidend Diamond”.

- Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2021-22 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd, ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu i ddysgu prentisiaid presennol yn unig.

- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i fod ar gael ar gyfer CCAUC, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau i'w gosod arno gan Lywodraeth Cymru.

- **Grantiau** Tabl yn dangos alldro 2019-20, a'r gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:

  – Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig amser llawn;

  – Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig amser llawn;

  – Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig rhan-amser;

  – Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser;

  – Elfen grant cyllido cwrs Meistr;

  – Lwfans Cynhaliaeth Addysg;

  – Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach); a

  – Grantiau a lwfansau wedi'u targedu.

- **Darpariaeth benthyciadau:** Tabl yn dangos alldro 2019-20, a'r gwariant at ddibenion benthyciadau a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:

  – Y gwariant a ragwelir at ddibenion benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau;

  – Y gwariant a ragwelir at ddibenion benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan amser a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau;

– Y gwariant a ragwelir o ran benthyciad cyllido cwrs Meistr a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau; a

– Y gwariant a ragwelir o ran benthyciad cyllido cwrs Doethuriaeth a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau.

*2.19 Darpariaeth addysg ôl-16 arall*

- Manylion cyllido’r Cyfrif Dysgu Personol
- Manylion y ddarpariaeth o ran y Gymraeg yn y Gyllideb, yn cynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

*2.20 Ymchwil ac arloesi, a gwyddoniaeth*

Sylwer, mae'r maes hwn yn syrthio o fewn cylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion Lywodraeth Cymru, rydym wedi cytuno i gynnwys y cais am wybodaeth berthnasol yn y llythyr hwn. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau unwaith iddi ddod i law.

- Manylion yr arian ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor yn ystod y gwaith craffu ar Gyllideb 2020-21 nad yw’n hollol glir ar hyn o bryd faint o arian y Llywodraeth sy’n cael ei ddyrannu i feysydd ymchwil ac arloesi, ac y byddai’r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i’r Pwyllgor unwaith y byddai’n hysbys.
- Manylion ynghylch y gefnogaeth ar gyfer:

– Y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i swyddfa;

– gweithgaredd ymchwil ac arloesi ar gyfer busnes a diwydiant; a’r

– Gwyddorau Bywyd.

*2.21 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a niferoedd y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yn hyn, wedi’i dadansoddi fel a ganlyn:

– crynodeb o'r gwariant a nifer y prosiectau a gyflawnwyd / a gwblhawyd ym Mand A; a’r

– sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Band B y rhaglen.

- Unrhyw oblygiadau yn sgil COVID-19 ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd prosiectau.

*2.22 Cyllid cyfalaf at ddibenion gofal plant*

- Diweddariad ar gyllid cyfalaf o’r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac unrhyw wybodaeth ynghylch sut yr effeithiwyd ar hynny / y bydd hynny’n cael ei effeithio o ganlyniad i'r adolygiad o’r hawl i'r cynnig, fel y cyhoeddwyd ym mharagraff 368 o Gofnod y Trafodion, **24 Medi** 2019.

*2.23 Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned*

- Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y grant Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar y cynnydd o ran cynyddu natur ystadau addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

29 Hydref 2020

Annwyl Ken,

**Cais am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021 – 22**

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi dechrau paratoi ar gyfer y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Rydym yn bwriadu eich gwahodd i sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Mae pwyllgorau yn cydlynu amserlenni er mwyn osgoi gwrthdaro a sicrhau'r effeithlonrwydd pennaf o ran amser pwyllgor a gweinidogol, a bydd y tîm clercio yn anfon gwahoddiad ffurfiol gyda dyddiad y sesiwn pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau.

Rydym yn ymwybodol y bydd eich blaenoriaethau – fel y dylen nhw fod – yn ymwneud â sgil-effeithiau negyddol y pandemig a dydyn ni ddim eisiau tynnu sylw oddi ar hynny, ond mae craffu ar y Gyllideb yn rôl bwysig i'r Pwyllgor ac mae'n rhaid iddo barhau. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ein paratoadau, yn ogystal â gwybodaeth am y Llinellau Gwariant unigol yn y Gyllideb ar gyfer eich portffolio sy'n berthnasol i'n Pwyllgor, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth ar y materion cyllidebol hynny sydd wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Does dim rhaid i chi fod yn gyfyngedig i'r cais hwn, wrth gwrs,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEIS@senedd.wales
0300 200 6565

rhwydd hynt i chi fynd i’r afael ag unrhyw faterion eraill y byddent, yn eich barn chi, o gymorth i’r Pwyllgor wrth ei waith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi’r wybodaeth hon i'r Pwyllgor mewn papur dwyieithog o leiaf pythefnos cyn y dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer cynnal y gwaith craffu.

Er mwyn sicrhau’r defnydd gorau o amser yr Aelodau ac amser Gweinidogol mewn pwyllgor, bydd Aelodau o’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn rhoi sylw i feysydd cylch gwaith Economi, Seilwaith a Sgiliau sy’n ymwneud ag Ymchwil a Datblygu a ddaw o fewn portffolio Kirsty Williams yn ystod y sesiwn gyda hi ar y gyllideb. Fodd bynnag, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau fydd yn parhau i adrodd ar y meysydd hyn, gan ddefnyddio’r dystiolaeth o’r sesiwn honno. I’r diben hwn, rydw i wedi copïo
Lynne Neagle AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Diolch yn fawr am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sigiliau

**Atodiad**

Cais am wybodaeth gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i helpu i lywio gwaith craffu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21.

**Cyflwyno'r gyllideb**

Yn dilyn ein sesiwn, byddwn yn cyflwyno ein casgliadau yn unol â'r dull cydgysylltiedig a gytunwyd ar gyfer gwaith craffu cyllidebol. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar bedair egwyddor atebolrwydd cyllidol, sef fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb. Defnyddir yr egwyddorion hyn fel sail ar gyfer holl bapurau briffio, sesiynau tystiolaeth ac adroddiadau'r Pwyllgor. Dyma'r egwyddorion:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm refeniw a gwariant, ac a yw'r cydbwysedd cywir rhyngddynt wedi'i daro;
- **Blaenoriaethu** – a ellir cyfiawnhau'r ffordd y caiff dyraniadau eu rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol, ac a yw'r broses hon yn ddealladwy;
- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol (hynny yw, beth yw'r canlyniadau);
- **Prosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch, ac yw'r gwaith cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau wedi'i integreiddio â'r gwaith o reoli perfformiad a rheoli cyllid.

Gofynnwn ichi roi'r wybodaeth a ganlyn am gyllideb ddrafft portffolio'r Economi a Thrafnidiaeth yn ei gyfanrwydd:

- Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2021-22, ac unrhyw gyllidebau dangosol yn y dyfodol, yn ôl maes y rhaglen wariant, cam gweithredu a llinell wariant yn y gyllideb, boed yn refeniw neu'n gyfalaf, ynghyd â'r dyraniadau yng nghyllideb 2020-21 fel cymhariaeth;
- Manylion y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dyraniadau o'r gyllideb;
- Disgrifiad naratif o'r prif bolisïau a rhaglenni a gyllidir gan bob llinell wariant yn y gyllideb;
- Manylion y prosesau sydd ar waith i fonitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, gan nodi diffygion a gwargedion posibl a chymryd camau unioni i gywiro cwrs y gyllideb neu ddyrannu cyllid ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffyg;
- Manylion unrhyw adroddiadau/adolygiadau polisi neu raglenni sydd wedi arwain at newidiadau i'r gyllideb ddrafft i helpu i sicrhau gwerth am arian;

- Goblygiadau’r pandemig, gan gynnwys yr ymateb uniongyrchol a’r camau adfer yn y tymor hwy, i’r gyllideb ddrafft;
- Goblygiadau diwedd cyfnod pontio’r UE i’r gyllideb ddrafft, a’r ffordd y mae’r Gweinidog yn bwriadu rheoli unrhyw effaith negyddol ar gyllidebau yn y portffolio a/neu yn bwriadu manteisio ar unrhyw gyfleoedd a fydd yn codi o bosibl;
- Manylion yr ystyriaeth a roddwyd yn y gyllideb i uchelgais Llywodraeth Cymru o gael 30 y cant o’r gweithlu’n gweithio o bell, gan gynnwys ar draws llinellau’r economi a thrafnidiaeth yn y gyllideb;
- Sut y mae’r gyllideb ddrafft ar gyfer portffolio’r Gweinidog yn cefnogi datgarboneiddio, ac yn benodol yn helpu i weithredu’r polisïau a’r cynigion a amlinellir yn ‘Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel’;
- Sut y mae’r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth sy’n cael ei phasio yn y Senedd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ar lefel y DU;
- Pa ystyriaeth sydd wedi’i rhoi i Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth benderfynu ar ddyraniadau o’r gyllideb ddrafft;
- Manylion am y ffordd y mae unrhyw faterion o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac asesiadau o’r effaith ar y Gymraeg wedi dylanwadu ar y gyllideb ddrafft;
- Sut y mae’r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y tymor hir i ostwng effaith amddifadedd a thlodi;
- Ym mha ffordd y mae’r Gweinidog wedi cynllunio ar gyfer newidiadau demograffig wrth lunio ei gyllideb ddrafft, yn enwedig yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy’n heneiddio.

## Gwariant ataliol:

Byddwn yn trafod gwariant ataliol fel rhan o’n gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft. Dyma’r diffiniad o wariant ataliol rydym yn ei fabwysiadu at y diben hwn:

> *… gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, gan arwain at ganlyniadau gwell a sicrhau gwerth am arian.*

O gofio’r diffiniad hwn, gofynnwn am wybodaeth am y meysydd a ganlyn:

- Y gyfran o gyllideb yr economi a thrafnidiaeth a ddyrannir i fesurau gwariant ataliol;
- Manylion polisïau neu raglenni penodol yn eich portffolio, sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sut, yn ymarferol, y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trawsnewid i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol;
- Sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n benodol ar nodi beth yw'r mewnbynnau a'r allbynnau penodol a fwriedir.

**Llinellau gwariant unigol yn y gyllideb**

Fel yn y sesiwn ddiwethaf o waith craffu ar y gyllideb, yn ogystal â'r llinellau gwariant unigol yn y gyllideb ar gyfer eich portffolio sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, hoffem gael gwybodaeth am y polisïau a'r materion a amlinellir isod.

Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y llinell yn y gyllideb, fel y bo'n briodol, hoffem weld y canlynol:

- Manylion y costau a/neu unrhyw waith a wnaed i asesu cost gweithredu'r polisïau hyn yn 2021-22;
- Gwybodaeth am y ffordd y caiff y gwaith o weithredu polisi a'i ganlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

Rydym hefyd yn awyddus i weld sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau o'r gyllideb, yn enwedig unrhyw asesiadau o effaith a wnaed o ganlyniad i'r pandemig a'i effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Trafnidiaeth**

Ym mha ffordd y mae'r gyllideb ddrafft yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trafnidiaeth, yn enwedig y camau i gyflwyno'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, gan gynnwys sut rydych wedi blaenoriaethu gwariant, fforddiadwyedd eich blaenoriaethau ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder;

Ym mha ffordd y mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer y materion a ganlyn:

- Effaith pandemig y coronafeirws, a'r camau adfer cysylltiedig, gan gynnwys cymorth i ddarparwyr trafnidiaeth;
- Dyraniadau penodol a wnaed mewn perthynas â Brexit i liniaru'r effaith ar wasanaethau/sectorau trafnidiaeth;
- Gweithredu'r fasnachfraint rheilffyrdd;
- Gweithredu cynlluniau Metro gogledd-ddwyrain Cymru, de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru;
- Cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran seilwaith y rheilffyrdd;
- Datblygu Trafnidiaeth Cymru – gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniad Trafnidiaeth Cymru o'r gyllideb, a hynny gan eitemeiddio ei chyllideb gorfforaethol ynghyd â'r dyraniadau i weithredu rhaglenni penodol;
- Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru;
- Buddsoddi yn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd;
- Gweithredu polisi teithio llesol – gan gynnwys tabl yn nodi cyfanswm y gwariant a'r gwariant fesul pen ar deithio llesol ar gyfer 2021-22, o gymharu hynny â'r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a dyraniadau cyfalaf gael eu nodi'n glir yn y tabl hwn;
- Cymorth ar gyfer gwasanaethau bws a thrafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys manylion y dull newydd o gyllido gwasanaethau bws;
- Cynllun Teithio Rhatach Cymru Gyfan a thocynnau teithio rhatach i bobl ifanc;
- Cymorth ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol; a
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o lunio'r strategaeth drafnidiaeth nesaf i Gymru a'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol nesaf.

**Yr economi**

Y cynllun gweithredu ar yr economi, gan gynnwys:

- Cymorth parhaus i helpu busnesau yn ystod y pandemig ac i hybu'r broses adfer ar ôl y pandemig;
- Y dull rhanbarthol o ran datblygu economaidd, gan gynnwys dyraniadau penodol i gefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau busnes rhanbarthol ac argymhellion adolygiad llywodraethu aml-lefel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd;
- Cronfa Dyfodol yr Economi – faint o arian a ddyrannwyd i'r gronfa hon, yn ogystal â manylion llawn y cronfeydd penodol sydd wedi'u cydgrynhoi yng Nghronfa Dyfodol

yr Economi a'r rhai y bwriedir iddynt 'bontio' i'r gronfa yn y tymor hwy (gan gynnwys faint o arian sy'n gysylltiedig â hyn);

- Manylion yr holl wariant ar gefnogi busnesau (cyllid, grantiau a benthyciadau) sydd y tu allan i Gronfa Dyfodol yr Economi;
- Y dyraniadau ariannol i weithredu'r 'cynllun galluogi' ar gyfer yr economi sylfaenol;
- Cronfa Her yr Economi Sylfaenol – gan gynnwys manylion dyraniadau o'r gronfa a'r dull o fonitro llwyddiant y prosiectau a gefnogir;
- Banc Datblygu Cymru;
- Y Banc Cymunedol/cymorth i Banc Cambria;
- Ardaloedd Menter ac Ardaloedd Gwella Busnes;
- Cymorth ar gyfer mewnforio a mewnfuddsoddiad;
- Cymorth ar gyfer sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel y sectorau awyrofod, modurol a dur;
- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025;
- Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf;
- Mentrau Tasglu'r Cymoedd a'r Cymoedd Technoleg;
- Cymorth i awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys argymhellion yr adolygiad o arloesi digidol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019.

**Sgiliau**:

- Trosolwg cyffredinol o'r cymorth parhaus ar gyfer y sector sgiliau yn ystod y pandemig ac unrhyw gymorth y bydd y sector hwn yn ei gael at ddibenion adfer.

Dysgu seiliedig ar waith:

- Manylion caffael ynghylch cyflwyno prentisiaethau o 1 Awst 2021, gan gynnwys manylion y strwythur gweithredu a fwriedir (hynny yw, nifer y darparwyr, yr ystod o ddarpariaeth a'r dosbarthiad daearyddol (nid yw'n ymddangos bod lotiau ar wahân wedi'u nodi yn y broses gaffael hon));
- Copi o'r dogfennau caffael ar gyfer y broses o gaffael rhaglen brentisiaethau 2021;
- Amlinelliad o'r gwersi perthnasol a ddysgwyd o broses gaffael Cymorth Swyddi Cymru fel y maent yn berthnasol i gaffael prentisiaethau a sut y maent wedi'u dwyn ymlaen yn yr ymarfer ar gyfer 2021;

- Manylion unrhyw drosglwyddiadau allan o'r cam gweithredu dysgu seiliedig ar waith i gyllido prentisiaethau gradd;
- yr *alldro gwirioneddol ar gyfer 2019-20 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21* ar gyfer y rhaglen brentisiaethau a'r rhaglen hyfforddeion, gan gynnwys y cyllid Ewropeaidd a ddefnyddir;
- Manylion unrhyw gyllid y bwriedir ei wario ar adolygu ac adnewyddu fframweithiau prentisiaethau fel y nodir yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: *Strwythur ar gyfer Fframweithiau Prentisiaeth Cymru*;
- Manylion yr holl gyfyngiadau o ran rheoli'r galw a chamau gweithredu i reoli'r galw am brentisiaethau sydd ar waith, neu a fydd yn cael eu cyflwyno, ar gyfer y rhaglen brentisiaethau;
- Manylion unrhyw newidiadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, i'r cyfyngiadau i reoli'r galw oherwydd pandemig COVID-19.

Cymorth ar gyfer cyflogadwyedd

- Rhestr o'r holl raglenni/cynlluniau cyflogadwyedd a gyllidir o'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, y cleientiaid y bwriedir iddynt fanteisio ar bob rhaglen/cynllun a rhestr o bob darparwr sydd dan gontract/y prif ddarparwr ar gyfer pob rhaglen/cynllun, gan gynnwys gwerth y contract;
- Sylwadau ar gyllid yr UE a ddefnyddiwyd yn y cam gweithredu cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys y symiau a dibenion y gwariant;
- Alldro gwirioneddol ar gyfer 2019-20 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 ar gyfer y cam gweithredu cyflogadwyedd a sgiliau.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â chyflogwyr:

- Manylion y cyllid sydd i'w ddarparu i bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol;
- Manylion unrhyw gyllid arall y bwriedir iddo gefnogi gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ond nad yw'n cael ei ddyrannu'n uniongyrchol iddynt.

**CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 4**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

At|To: Pob Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd GIG Cymru

Dyddiad | Date: 10 Tachwedd 2020

Pwnc | Subject: **COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

Annwyl Brif Weithredwyr,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn gwneud gwaith craffu ar y camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

Mae iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i ni. Ers dechrau'r argyfwng iechyd cyhoeddus, rydym wedi clywed amrywiaeth eang o bryderon sy'n awgrymu ei bod yn bosibl bod canlyniadau anfwriadol y cyfyngiadau oherwydd epidemig COVID-19 yn cael mwy o effaith ar blant a phobl ifanc na'r haint ei hun. Yn ein hadroddiad interim ar effaith y feirws ar blant a phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, nodir ein bod o'r farn bod cymryd camau i gefnogi iechyd meddwl a lles ein plant yn bwysicach nawr nag erioed.

Rydym yn ymwybodol o rai o'r camau mae gwasanaeth iechyd Cymru'n eu cymryd i helpu i fodloni anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig, megis sicrhau bod darpariaeth ar gael ar-lein a dros y ffôn.

Fodd bynnag, ysgrifennaf i ofyn am sicrwydd ynghylch y camau y mae eich bwrdd iechyd yn eu cymryd i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod ar eich gwefannau wybodaeth briodol, glir a hawdd ei chyrraedd, i blant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr am y llwybrau tuag at help a chymorth gyda'u hiechyd meddwl, a gwybodaeth ar gyfer teuluoedd am sut i hunanatgyfeirio lle bo angen. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu'r lincs perthnasol fel tystiolaeth o hyn.

O ystyried pwysigrwydd y wybodaeth hon, a'n gwaith parhaus yn y maes hwn, byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb unigol gan bob bwrdd iechyd erbyn **canol dydd, ddydd Mercher 18 Tachwedd 2020.**

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(5)-28-20 - Papur i'w nodi 5**

Dear Chair

Thank you for the opportunity to provide supplementary evidence to the committee in relation to the issue of visibility and accessibility of child and adolescent mental health services on local Health Board websites.

Firstly, here is a summary of action which has been taken by my office:

- Following frustrations experienced by my team in providing information for families on local CAMHS provision, my office reviewed local health boards' websites in April 2020.
- I then wrote to all LHBs in April 2020 (sample letter attached), summarising issues affecting many of the webpages when trying to find information about CAMHS services.
- I received responses from Cardiff & Vale University Health Board, Aneurin Bevan University Health Board, and Betsi Cadwaladr University Health Board. We were pleased that all three promised some action on improving the visibility / awareness around CAMHS services. Promised improvements included updating information on web pages, and using social media channels to raise awareness of relevant web pages. Our assessment is that welcome improvements have been made and web pages have been updated with further information. However, we feel that accessibility of web pages and clarity of information on those web pages continues to be an issue for several Boards.
- My office reviewed the websites again in October 2020. We noted that most websites have improved following our letter in April, but most are missing one or more of the key elements listed below.
- I raised this issue with Chairs, Chief Executives and Vice Chairs in a meeting on 23rd October.

Here are some examples of where I think improvements could be made:

- There is a lack of child-friendly information for mental health support;
- There are general navigation issues – CAMHS web pages often take several attempts to locate and search function does not always lead to the page you need. Some CAMHS links on LHB websites take you to a Twitter feed only;
- Websites often do not have a tab on their home page which links to mental health services webpages, or to children's services;
- There is often little or no information for families if a child or young person were to experience a crisis, particularly out of hours;
- Where there are web pages relating to mental health services on the main Board websites these are often only for adult services, and do not include information about CAMHS.

Some examples of positive practice which I think should be replicated across all health board websites include:

- Detailed explanation of the process to expect when making contact with the health board, for both parents/carers and young people. An example of this can be found here;
- Telephone contact numbers on web pages for families as well as for those making referrals. An example of a direct line set up as a result of the pandemic that young people and parents/carers can use is here;

- Straightforward explanations of what is meant by mental and emotional health issues. An example can be found here;
- Advertisement of the CALL helpline;
- Web pages listing who can refer to CAMHS;
- Virtual tours of mental health settings;
- Lists of potentially useful organisations to contact. An example can be found here.

My office will continue to monitor the Boards' websites in relation to CAMHS.

Yours sincerely



Sally Holland

Children's Commissioner for Wales

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner for
Wales

**<u>Via email only</u>**

29th April 2020

Dear Chair and Chief Executive,

**Re: Information for Children and Young People from Health Boards**

I wish to begin by thanking you and every member of staff within your health board for your fantastic efforts during this time of national crisis.

My team and I remain in work and I'd invite you to contact the office if there's anything we can help with at this time

I wanted to raise the issue of public-facing communication channels operated by individual health boards.

While I know there has been tremendous effort in ensuring clear messaging during this time, I wished to flag two issues which have been drawn to our attention:

1. Clarity and visibility over hospital visiting policies. While we are aware that national guidance has been sent out to all Boards via the CMO, and that all Boards have somewhere on their websites details around visiting arrangements, we would request that every Board reviews the visibility of this information on their websites and social media channels. I am concerned that some families will assume that the current visiting restrictions apply across the board, and are not aware of the exemptions for specific situations, which includes one parent or guardian being able to visit paediatric inpatients and neonates.

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**

**childrenscommissioner.wales**

Comisiynydd Plant
Cymru
Children's
Commissioner for
Wales

2. Clarity and visibility of contact details for CAMHS services and the CALL helpline. I am concerned that, while CAMHS teams across Wales are managing to continue to provide their core services, children and young people's ordinary referral pathways may not be available to families and professionals in the same way as before (i.e. through school, GP visits, youth services etc.), and therefore children and young people are not being 'picked up' in the way they would have been before. This is true for both existing service users and new referrals. I therefore would like to request that the availability of CAMHS services is made clearer through websites and social media channels, targeting both families and professionals.

I would be very grateful for your assistance in reviewing your current publicfacing communications channels to see what more can be done to ensure these issues are well advertised to families so that they understand that they are able to visit their children in hospital, and that CAMHS services remain operational.

I would like to request that you also consider how children and young people would experience accessing information, and whether your communications are child-friendly. From our own research we have found that while some Health Board websites were easier to navigate than others from an adult perspective in terms of finding information on visiting policies and CAMHS, some had no information about CAMHS at all, and none of the websites are child-friendly. I would therefore urge you to consider how you can improve the visibility of services from the perspective of a child or young person, through both your website and other communications channels.

I wanted to also just remind you that we have set up an Information Hub on our website for children and young people, and their parents. We have included a range of age appropriate advice and guidance, some learning resources, fun activities and also a FAQs section. We are updating the content daily and we'd welcome any suggestions or feedback from your communications staff on what we can include. If you have any useful resources, particularly those aimed specifically at children and young people, we'd be happy to include links to these on our website. We'd also invite you to share this information via your own social media and communications channels, so that information for children and young people is being widely shared.

https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus/

https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws/

We’ve also ensured that our Investigation and Advice service remains operational during this time. All of our staff are working from home and have telephone and email contact. Your staff or families in your locality can email advice@childcomwales.org.uk or contact us on 07507 648245 or 07794 123132. We are continuing to offer advice to children and young people, parents and carers and also professionals. Where we are unable to address specific queries, we are raising these directly with Welsh Government officials, on a weekly basis or on the day if the issue is urgent. If your staff are finding it difficult to find answers to particular questions, particularly relating to national policy and guidelines, please do feed them through to my team and we’ll endeavour to raise these on your behalf.

Thank you once again for everything you are doing at this time.

Kind regards,



Sally Holland
Children’s Commissioner for Wales

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru

13/11/20

Annwyl Eluned

**Gwasanaethau iechyd meddwl Cymraeg**

Llongyfarchiadau ichi ar eich cyfrifoldebau newydd ym meysydd iechyd meddwl a llesiant. Oherwydd amrediad eich meysydd gwaith mawr obeithiaf y bydd ymestyn eich cyfrifoldebau yn arwain at gynnydd yn y gwasanaethau hyrwyddo a chefnogi iechyd meddwl sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl o bob oed.

Yn benodol dros y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi dod yn ymwybodol o ddiffygion mewn gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc a phobl hŷn fel ei gilydd. Yn 2018 tynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sylw at ddiffyg gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Gymraeg yn ei adroddiad *Cadernid Meddwl*[1]. Yn yr un flwyddyn yn ogystal cyhoeddodd Meri Huws, fy rhagflaenydd fel Comisiynydd y Gymraeg adroddiad ar ofal dementia siaradwyr Cymraeg ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru[2]. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o fannau yr oedd angen eu gwella er mwyn i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau dementia yn y Gymraeg ac roedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a nifer o gyrff eraill. Mae'n ofid mawr imi fod Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddiweddar yn ei Adolygiad

[1] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf

[2] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20dementia%20a'r%20Gymraeg.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia[3] wedi adnabod bylchau tebyg mewn gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg. Nid yw’n dderbyniol bod siaradwyr Cymraeg bregus yn cael eu rhoi o dan anfantais wrth geisio derbyn gwasanaethau dementia.

Yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad ar Ofal Dementia Siaradwyr Cymraeg sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwylio gweithredu argymhellion yr adroddiad. Mae cyfyngiadau’r pandemig diweddar wedi golygu na fu modd i’r grŵp gyfarfod yn ddiweddar ond bydd yn cwrdd ddechrau 2021. Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y buasai’n darparu diweddariad ar nifer o argymhellion yr adroddiad ar gyfer y grŵp gorchwyl a gorffen. Amgaeaf ohebiaeth ganddo yn manylu ar y pwyntiau hynny. Gan ddeall wrth gwrs bod digwyddiadau’r misoedd diwethaf wedi oedi gwaith y Llywodraeth yn y maes hwn edrychaf yn fawr at dderbyn diweddariad ar yr argymhellion hyn. Y tu hwnt i hynny, mawr obeithiaf y bydd modd inni gydweithio i sicrhau y bydd cynnydd mewn gwasanaethau iechyd meddwl ar gael i siaradwyr Cymraeg law yn llaw â sicrhau cynnydd yn niferoedd siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,



**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg

Amg.

Copi at: Sue Phelps, Cyfarwyddwr Cymru, Alzheimer’s Society Cymru
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Bethan Webb, Llywodraeth Cymru
Cadeirydd, Grŵp Trosolwg, Gweithredu ac Effaith ar gyfer Dementia
Cadeirydd, Grŵp Trawsbleidiol ar Dementia

[3] https://arolygiaethgofal.cymru/adolygiad-cenedlaethol-o-gartrefi-gofal-i-bobl-syn-byw-gyda-dementia

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00636/20

Aled Roberts a Sue Phelps
Comisiynydd y Gymraeg a'r Gymdeithas Alzheimer
Cerian.Davies@cyg-wlc.cymru

17 Mawrth 2020

Annwyl Aled a Sue,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 19 Chwefror ynghylch yr Adroddiad Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg.

Nodaf eich cais am wybodaeth a diweddariadau pellach mewn perthynas â'r cynnydd wrth weithredu'r argymhellion sydd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ceir diweddariadau penodol ynghylch y gwaith cyfredol isod. Wrth i ni roi'r argymhellion hyn ar waith ymhellach byddem yn hapus i roi diweddariadau pellach i'r grŵp gorchwyl a gorffen bob chwe mis. Bydd fy swyddogion mewn cysylltiad gyda Huw Owen a Lowri Williams i sefydlu'r trefniadau.

***Argymhellion 3-5:***

Gofynnir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) sicrhau fod anghenion o ran y Gymraeg yn cael eu gwreiddio o fewn pob gwasanaeth a phrosiect sy'n cael eu cefnogi gan y Gronfa Gofal Integredig (CGI). Caiff adroddiadau diwedd blwyddyn ar gyfer y CGI eu darparu i'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia (DOIIG) fydd yn cynnwys gweithgaredd 2019/20 a byddwn yn sicrhau fod yna ffocws o ran adrodd ar sut y mae anghenion Cymraeg yn cael eu diwallu yn y cyd-destun hwn. Byddwn hefyd yn sicrhau y cewch weld y wybodaeth yma pan gaiff ei pharatoi.

Rwyf hefyd yn ymwybodol fod Catrin Redknap o'r Tîm Gwybodaeth ac Ymchwil Dadansoddol wedi cyfarfod ag Aled yn ddiweddar i roi diweddariad ar y cynnydd gyda phrosiectau ymchwil cyfredol. Gwnaed cysylltiadau ar draws gwaith ymchwil a gwerthusiadau sydd ar y gweill o ran y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

***Argymhelliad 6:***

Ers darparu'r diweddariad diwethaf, mae swyddogion yn parhau i weithio gyda grŵp arbenigol ar brofion ac asesiadau Cymraeg. Mae'r grŵp yn cynnwys ymchwilwyr ac ymarferwyr o'r GIG a gofal cymdeithasol a chafodd ei sefydlu i edrych ar gyfieithu asesiadau i'r Gymraeg, gan ddefnyddio tystiolaeth o gwmpas yr iaith fyw i ddatblygu cyfres o declynnau wedi'u safoni sy'n berthnasol i asesiadau ymwybyddol i bobl ar draws ystod o oedrannau a namau lle mai'r Gymraeg yw eu dewis (neu eu hunig) iaith. Mae hyn yn cael ei droi yn gynnig ar gyfer gwaith ymchwil ar hyn o bryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Argymhelliad 7:***

Mae swyddogion yn gweithio gyda'r fforymau a'r platfform cenedlaethol i gytuno ar ffordd ymlaen. Rwyf wedi gofyn iddynt eich diweddaru ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud.

***Argymhelliad 9 - 10***

Cychwynnodd yr Ymarferydd Perthynol i Iechyd ar gyfer Dementia yn ei swydd ym mis Ionawr felly mae'n gamau cynnar ar y gwaith hwn. Rydym wedi sicrhau ei bod hi'n ymwybodol o argymhellion yr adroddiad a bydd hyn yn llywio ei gwaith wrth iddo symud yn ei flaen. Rydym wedi neilltuo cyllid o fewn y gyllideb i sicrhau cefnogaeth ar gyfer y swydd, fydd yn debygol o fod yn swydd weinyddol.

Nid oes bwriad gennym ar hyn o bryd i greu swydd ar wahân o fewn y maes clinigol ond wrth i ni symud ymlaen i weithredu'r Cynllun Gweithredu Dementia byddwn yn parhau i adolygu hyn.

***Argymhelliad 13:***

Yn ogystal â'r diweddariad a roddwyd ar gyfer argymhelliad 3-5, rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygu safonau gofal, a gaiff eu trafod yng nghyfarfod DOIIG. Byddwn yn sicrhau fod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael eu hystyried yn llawn yn y trafodaethau hyn gan rannu cynnydd ar y gwaith hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

***Argymhelliad 14:***

Fel y nodwyd mae gennym ddau werthusiad ar y gweill ar hyn o bryd o ran Mwy na geiriau a'r Cynllun Gweithredu Dementia, felly nid ydym yn bwriadu gwneud darn ychwanegol o waith ar hyn o bryd ond byddwn yn adolygu'r angen am y gwaith hwn unwaith y byddwn yn ymwybodol o ddeilliannau'r llinynnau gwaith cyfredol.

Rwy'n croesawu'r cyfle i roi'r diweddariad hwn i chi ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi i symud y gwaith o wella Gwasanaethau Cymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ei flaen.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon